

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL

Drafft

2000 Rhif (Cy.)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm
Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a
Rhaglenni Astudio mewn Mathemateg)
(Cymru) 2000**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Caiff Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer mathemateg ei ddiwygio o 1 Awst 2000 ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i raglenni astudio newydd, sy'n nodi beth ddylid ei addysgu i ddisgyblion, ac yn gosod targedau cyrhaeddiad iddynt. Rhoddir y manylion amdanynt mewn dogfen o'r enw "Mathemateg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol" sydd ar gael gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn nodi'r trefniadau i gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd fesul rhan.

National Assembly for Wales

Draft

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. (W.)

EDUCATION, WALES

**The Education (National Curriculum)
(Attainment Targets and Programmes of
Study in Mathematics) (Wales) Order 2000**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The National Curriculum for Wales for mathematics will be revised from 1st August 2000. This Order gives legal effect to the new programmes of study, which set out what pupils should be taught, and attainment targets for them. Details of these are set out in a document called "Mathematics in the National Curriculum" which is available from the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales.

This Order also set out arrangements for phasing in the new National Curriculum.

Mae'r Gorchymyn yn disodli Gorchymyn
Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol)
(Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni
Astudio mewn Mathemateg) 1995.

The Order replaces the Education (National
Curriculum) (Attainment Targets and
Programmes of Study in Mathematics) Order
1995.

[Gorchymyn drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i'w gymeradwyo gan benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol]

[Draft Order laid before the National Assembly for Wales under section 66(2) of the Government of Wales Act 1998 for approval by resolution of the National Assembly]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

OFFERYNNAU STATUDOL

DRAFT

Drafft

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif (Cy.)

2000 No. (W.)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm
Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a
Rhaglenni Astudio mewn Mathemateg)
(Cymru) 2000**

**The Education (National Curriculum)
(Attainment Targets and Programmes of
Study in Mathematics) (Wales) Order 2000**

Made 2000

Wedi'i wneud 2000

Coming into force

Yn dod i rym

except as provided in

ac eithrio fel a ddarperir yn

article 1(2) . . 1st August 2000

Cyflawnwyd y gofynion a nodir yn yr Atodlen.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 356(2)(a) a (b) a (4) o Ddeddf Addysg 1996(a) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli a chwmpas

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Mathemateg) (Cymru) 2000 ac, yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, daw i rym ar 1 Awst 2000.

2. Bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau mae a wnelont â'r pedwerydd cyfnod allweddol yn dod i rym-

a. ar 1 Awst 2001 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod allweddol hwnnw: a

(b) ar 1 Awst 2002 ar gyfer pob disgybl arall yn y cyfnod allweddol hwnnw.

The requirements set out in the Schedule have been fulfilled.

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 356(2)(a) and (b) and (4) of the Education Act 1996(a) and now vested in

the National Assembly for Wales(b), the National Assembly for Wales makes the following Order:

Citation, commencement, interpretation and application

1.-(1) This Order may be cited as the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in Mathematics) (Wales) Order 2000 and, subject to paragraph (2) below, shall come into force on 1st August 2000.

(2) The provisions of this Order insofar as they relate to the fourth key stage shall come into force -

(a) on 1st August 2001 in respect of pupils in the first year of that key stage: and

(b) on 1st August 2002 in respect of all other pupils in that key stage.

2. Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "yr Awdurdod" yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru(**c**) ("*the Authority*");

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("*the National Assembly*");

ystyr "y Ddogfen" yw'r ddogfen a gyhoeddir gan yr Awdurdod yn 2000 o dan y teitl "Mathemateg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol"(**ch**) ("*the Document*"); a

dehonglir cyfeiriadau at gyfnodau allweddol yn unol â'r diffiniad o "key stages" yn adran 355(1) o Ddeddf Addysg 1996

- Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i

ysgolion yng Nghymru'n unig.

Diddymu

2. Bydd Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Mathemateg) 1995(**d**) yn peidio â bod yn gymwys-

- a. ar 1 Awst 2000 ar gyfer disgyblion yn y cyfnodau allweddol cyntaf, ail a thrydydd;
a
- b. ar 1 Awst 2001 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn gyntaf y pedwerydd cyfnod allweddol; ac

(3) In this Order -

"the Authority" means the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales (**c**) ("*yr Awdurdod*");

"the Document" means the document published by the Authority in 2000 entitled "Mathematics in the National Curriculum"(**d**) ("*y Ddogfen*");

"the National Assembly" means the National Assembly for Wales ("*y Cynulliad Cenedlaethol*"); and

references to key stages shall be construed in accordance with section 355(1) of the Education Act 1996.

- (4) This Order applies only to schools in Wales.

Revocation

2. The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in Mathematics) Order 1995(**e**) shall cease to apply -

- (a) on 1st August 2000 in respect of pupils in the first, second and third key stages;

fe'i diddymir ar 1 Awst 2002.

(b) on 1st August 2001 in respect of pupils in the first year of the fourth key stage; and

shall be revoked on 1st August 2002.

Pennu targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio

3. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfarwyddo y bydd y darpariaethau ynglŷn â thargedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a nodir yn y Ddogfen yn cael effaith i'r diben o bennu'r targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio ynglŷn â mathemateg.

4. Nid yw'r enghreifftiau a italeiddiwyd yn y Ddogfen (er mwyn dangos y rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 **(dd)**

2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Specification of attainment targets and programmes of study

3. The National Assembly directs that the provisions relating to attainment targets and programmes of study set out in the Document shall have effect for the purpose of specifying the attainment targets and programmes of study in relation to mathematics.

4. The examples printed in italics in the Document (which serve to illustrate the programmes of study described therein) do not form part of the provision made by this Order.

Signed on behalf of the National Assembly under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998 **(f)**

2000

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN

Gofynion o dan adran 368 o Ddeddf Addysg 1996(e)

Adran 368(2)

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol gynnig i'r Awdurdod gan roi cyfarwyddiadau amser ynglŷn â'r cyfnod yr oedd yr Awdurdod i roi adroddiad (f).

Adran 368(3)

Hysbysodd yr Awdurdod y cynnig i'r cyrff a'r personau y cyfeirir atynt yn adran 368(3) o Ddeddf Addysg 1996 a rhoi cyfle rhesymol iddynt gyflwyno tystiolaeth a sylwadau ar y materion a oedd yn codi.

Adran 368(5)

Cyflwynodd yr Awdurdod ei adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 368(5)

Trefnodd yr Awdurdod gyhoeddi'r adroddiad.

SCHEDULE

Requirements under section 368 of the Education Act 1996(g)

Section 368(2)

The Secretary of State referred a proposal to the Authority and gave directions as to the time within which the Authority were to report(h).

Section 368(3)

The Authority gave notice of the proposal to the bodies and persons referred to in section 368 (3) of the Education Act 1996 and gave them a reasonable opportunity of submitting evidence and representations as to the issues arising.

Section 368(5)

The Authority submitted its report to the National Assembly.

Section 368(5)

The Authority arranged for the report to be published.

Adran 368(6) a (7)

Cyhoeddwyd drafft o'r Gorchymyn a'r ddogfen gysylltiedig a chaniatawyd cyfnod o un mis ar gyfer cyflwyno tystiolaeth a sylwadau ynglŷn â materion a oedd yn codi.

Adran 368(6) a (7)

Anfonwyd copi o'r Gorchymyn drafft a'r ddogfen gysylltiedig i'r Awdurdod ac at bob un person yr ymgynghorodd yr Awdurdod â hwy a chaniatawyd cyfnod o un mis ar gyfer cyflwyno tystiolaeth a sylwadau ynglŷn â materion a oedd yn codi.

Section 368(6) and (7)

A draft of the Order and of the associated document was published and a period of one month allowed for the submission of evidence and representations as to the issues arising.

Section 368(6) and (7)

A copy of the draft Order and associated document was sent to the Authority and to each of the persons consulted by the Authority and a period of one month was allowed for the submission of evidence and representations as to the issues arising.